Gwasanaeth Llysoedd
a Thribiwnlysoedd EF

Tribiwnlys Haen Gyntaf
(Siambr Reoleiddio Gyffredinol)

Stamp swyddfa (dyddiad cyrraedd)

GRC5

# Gwneud cais am gyfarwyddyd neu benderfyniad rheoli achos gan y Siambr Reoleiddio Gyffredinol

Defnyddiwch y ffurflen hon i wneud cais i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambr Reoleiddio Gyffredinol) am gyfarwyddyd neu benderfyniad rheoli achos.

## Ceisiadau eraill

Ni allwch ddefnyddio'r ffurflen hon i ddechrau apêl newydd, neu i wneud cais:

- dan adran 166 Deddf Diogelu Data 2018 (gorchmynion i symud cwynion yn eu blaen)
- am orchymyn costau awdurdodedig
- i orfodi penderfyniad y tribiwnlys (ardystio enwi dirmyg)
- am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys

## Cyn i chi ddechrau

- Mae'n debyg y bydd eich cais yn cael ei benderfynu'n gynt os ydych wedi cytuno ar y canlyniad gyda'r holl bartïon eraill
- Os ydych chi'n gynrychiolydd, mae'n rhaid ichi atodi gorchymyn drafft

### Os oes arnoch angen cymorth

Cysylltwch â swyddfa'r tribiwnlys os oes angen help arnoch gyda'r cais hwn neu wybodaeth am sut mae'r tribiwnlys yn gweithio.

Ni all y tribiwnlys roi cyngor cyfreithiol.

### Canllawiau ar lenwi'r ffurflen hon

Mae nodiadau i'ch helpu i ddeall y cwestiynau ar ochr dde'r dudalen.

Defnyddiwch ddalen arall o bapur os nad oes digon o le i chi ddweud popeth.

Rhowch eich enw ar frig unrhyw ddalennau ychwanegol.

Ysgrifennwch yn glir, os ydych chi'n llenwi'r ffurflen hon â llaw.


©Hawlfraint y Goron 2025

# Adran 1 – Gwybodaeth am yr achos

**1.1** **C**yfeirnod achos y Tribiwnlys Haen Gyntaf (os oes gennych un)

**1.2** Enwau'r apelydd/apelyddion

**1.3** Cyfeirnod(au) yr apelydd/apelyddion (os yw'n berthnasol)

**1.4** Enwau'r atebydd/atebwyr

**1.5** Cyfeirnod(au) yr atebydd/atebwyr (os yw'n berthnasol)

**1.6** Dyddiad y gwrandawiad nesaf (os yw eich achos wedi'i restru ar gyfer gwrandawiad)

Diwrnod Mis Blwyddyn

**Nodyn ar adran 1**

Gallwch ddod o hyd i gyfeirnod y Tribiwnlys Haen Gyntaf yn llinell pwnc ein negeseuon e-bost neu lythyrau atoch.

## Adran 2 – Eich gwybodaeth

**2.1** Beth yw eich rôl yn yr achos hwn?

- ☐ yr apelydd
- ☐ yr atebydd
- ☐ cynrychiolydd yr apelydd
- ☐ cynrychiolydd yr atebydd
- ☐ arall - nodwch

**2.2** Eich manylion

Enw cyntaf

Enw olaf

Enw'r sefydliad neu'r cwmni (dewisol)

**2.3** Cyfeiriad

Llinell gyntaf y cyfeiriad

Ail linell y cyfeiriad

Tref neu ddinas

Sir (dewisol)

Cod post

**2.4** Manylion cyswllt

Rhif ffôn

Cyfeiriad e-bost

**Nodyn ar Adran 2**

Os gwneir y cais ar ran mwy nag un unigolyn, rhowch y manylion yn Adran 4.2 a chynnwys tystiolaeth eu bod wedi cytuno i hyn.

**Nodyn 2.1**

Os ydych wedi dwyn achos gerbron y tribiwnlys nad yw'n apêl, dylech barhau i ddisgrifio eich hun fel yr apelydd yn y ffurflen hon.

## Adran 3 – Cyfarwyddiadau neu benderfyniadau rheoli achos

**3.1** Dewiswch beth ydych eisiau gofyn i'r tribiwnlys wneud:

- ☐ gohirio gwrandawiad
- ☐ ymestyn amser i wneud rhywbeth
- ☐ dileu achos
- ☐ atal parti rhag cymryd unrhyw ran bellach yn yr achos
- ☐ adfer achos
- ☐ atal datgelu neu gyhoeddi dogfennau a gwybodaeth
- ☐ delio gyda'r achos hwn gydag un neu fwy o achosion eraill
- ☐ rhywbeth arall, eglurwch beth rydych yn gofyn amdano:

**3.2** Eglurwch beth yr ydych yn gofyn amdano a pham.

Dylech gynnwys yr holl ffeithiau, rheolau, cyfraith achos neu ddarpariaethau cyfreithiol perthnasol i gefnogi eich rhesymau. Dylech hefyd gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol pan fyddwch yn anfon y ffurflen hon.

**Nodyn ar Adran 3**

Os ydych chi'n gynrychiolydd, mae'n rhaid ichi atodi gorchymyn drafft.

**Nodyn 3.2**

Os ydych wedi ticio mwy nag un blwch yng nghwestiwn 3.1, eglurwch y rhesymau dros bopeth rydych yn gofyn amdano yn y gwagle a ddarparwyd.

Gallwch ond defnyddio'r gwagle a ddarparwyd a'r tudalennau parhad ar ddiwedd y ffurflen hon.

Efallai mai ond copi o'r ffurflen hon ac unrhyw ddogfennau eraill a amgaeir gennych fydd gan y barnwr neu'r swyddog cyfreithiol sy'n gwneud penderfyniad ar eich cais.

# Adran 4 – Partïon eraill

**4.1** **A** yw'r partïon eraill i gyd yn cytuno y dylai'r tribiwnlys wneud y cyfarwyddyd neu'r penderfyniad rheoli achos yr ydych yn gofyn amdano?

☐ Ydyn. Mae'n rhaid i chi atodi tystiolaeth ysgrifenedig i gadarnhau hyn, er enghraifft neges e-bost

☐ Nac ydyn. Ewch i gwestiwn 4.2

**4.2** Pa gamau ydych chi wedi'u cymryd (os o gwbl) i ddweud wrth y partïon eraill eich bod yn gwneud y cais hwn?

**4.3** Eich cyfrifoldeb chi yw anfon copi o'r cais hwn ac unrhyw ddogfennau ategol at yr holl bartïon eraill, oni bai eich bod yn meddwl na ddylid eu datgelu i un neu fwy o'r partïon eraill.

A ddylid atal rhag datgelu'r cais hwn ac unrhyw ddogfennau ategol neu ran ohonynt i'r partïon eraill?

☐ Dylid. Eglurwch pam

☐ Na ddylid.

**Nodyn 4.3**

Bydd y tribiwnlys yn penderfynu p'un a ellir atal rhag datgelu'r cais a'r dogfennau.

Fe'ch hysbysir am y penderfyniad hwnnw a beth mae'r tribiwnlys wedi'i benderfynu fydd yn digwydd nesaf.

Gallwch ond defnyddio'r gwagle a ddarparwyd a'r tudalennau parhad ar ddiwedd y ffurflen hon.

## Adran 5 – Ceisiadau i'w hystyried ar frys

**5.1** Ydych chi angen i'r cais hwn gael ei ystyried ar frys o fewn 10 diwrnod gwaith?

☐ Oes. Ewch i gwestiwn 5.2.

☐ Nac oes. Ewch i'r Datganiad gwirionedd**.**

**5.2** Eglurwch pam yr ydych yn meddwl y dylid ystyried y cais hwn ar frys, a pham nad oeddech yn gallu ei wneud yn gynt.

Dylech gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol i gefnogi eich rhesymau.

**Nodyn 5.2:** Os ydych yn anfon y ffurflen hon at y Tribiwnlys drwy e-bost, ysgrifennwch BRYS yn y llinell pwnc.

Gallwch ond defnyddio'r gwagle a ddarparwyd a'r tudalennau parhad ar ddiwedd y ffurflen hon.

## Datganiad gwirionedd

Deallaf y gellir, mewn rhai amgylchiadau, ddwyn achos dirmyg llys yn erbyn unrhyw un sy'n gwneud datganiad anwir, neu sy'n achosi i ddatganiad anwir gael ei wneud mewn dogfen a ddilysir gan ddatganiad gwirionedd heb gredu'n onest ei fod yn wir.

☐ Rwy'n credu bod y ffeithiau a nodir yn y ffurflen hon, ac ar unrhyw dudalennau ychwanegol, yn wir.

☐ Mae'r apelydd neu'r atebydd yn credu bod y ffeithiau a nodir yn y ffurflen hon, ac unrhyw dudalennau ychwanegol, yn wir. Fe'm hawdurdodir gan yr apelydd neu'r atebydd i lofnodi'r datganiad hwn.

**Llofnod**

☐ Apelydd

☐ Cynrychiolydd yr apelydd

☐ Atebydd

☐ Cynrychiolydd yr atebydd

**Dyddiad**

Diwrnod Mis Blwyddyn

Enw llawn

## Rhestr wirio

☐ Rwyf wedi anfon copi o'r cais hwn ac unrhyw ddogfennau ategol at y partïon eraill cyn neu ar yr un pryd â'u hanfon i'r tribiwnlys

**neu**

☐ Nid wyf wedi anfon copi o'r cais hwn ac unrhyw ddogfennau ategol at y partïon eraill oherwydd dylid atal y partïon eraill rhag gweld y cais cyfan neu ran ohono neu'r holl ddogfennau ategol neu rai ohonynt. Mi eglurais pam yn Adran 4 y ffurflen hon.

**Rhestr o ddogfennau y mae angen eu cynnwys gyda'r cais:**

☐ copi o'r gorchymyn drafft (os ydych yn gynrychiolydd yn unig) (os yn bosibl, fformat Word)

☐ cytundeb ysgrifenedig gan y partïon eraill (os yw ar gael) er enghraifft: e-bost gan y partïon eraill

☐ copïau o unrhyw ddogfennau eraill i gefnogi eich apêl. Rhestrwch y dogfennau sydd wedi'u hatodi yma:

| |
|---|
| |

Nodyn ar ddogfennau i gefnogi eich apêl

Gallwch ychwanegu dogfennau i gefnogi eich apêl, megis llythyrau, lluniau a dogfennau.

Gallwch anfon lluniau o ddogfennau fel tystiolaeth.

Os ydych yn tynnu llun o ddogfen, rhowch ef ar arwyneb gwastad a thynnwch lun o uchder.

Pan fyddwch yn cyflwyno'ch dogfennau i'r tribiwnlys, dylech ond cynnwys atodiadau; peidiwch â darparu dolenni i dudalennau gwe.

Os ydych chi'n gynrychiolydd, mae disgwyl i chi ddarparu'r holl ddogfennau fel bwndel PDF sy'n cynnwys mynegai a'r tudalennau wedi'u rhifo.

Nodyn ar gytundeb ysgrifenedig

Mae'n debyg y bydd eich cais yn cael ei brosesu'n gynt os ydych wedi cael cytundeb gan y partïon eraill.

## Tudalen parhad 1

## Tudalen parhad 2

## Beth i'w wneud nesaf

Anfonwch y ffurflen sydd wedi'i llenwi a'i llofnodi ac unrhyw ddogfennau perthnasol o'r rhestr wirio gan ddefnyddio'r manylion isod:

**Cyfeiriad e-bost**

GRC@justice.gov.uk

neu

**Cyfeiriad**

Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF
Siambr Reoleiddio Gyffredinol
Blwch Post 11230
Caerlŷr
LE1 8FQ

**Rhif ffôn**

0300 303 5857

## Camau nesaf

Bydd y tribiwnlys yn ystyried eich cais ac yn rhoi gwybod i chi beth yw'r canlyniad. Gallwch gael rhagor o wybodaeth yma: www.gov.uk/courts-tribunals/first-tier-tribunal-general-regulatory-chamber

I gael gwybodaeth am sut mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF yn prosesu ac yn storio eich data, ewch i: www.gov.uk/hmcts/privacy-policy